YR ATODLEN

Rheoliad 2 a 5

DARPARIAETHAU CYMUNEDOL PENODEDIG

# RHAN I

| *Y Ddarpariaeth yn Rheoliad 1829 /2003* | *Y Pwnc* |
|---|---|
| Erthygl 4.2 | Gwahardd rhoi bwyd ar y farchnad y cyfeirir ato yn Erthygl 3.1 onid oes awdurdodiad ar ei gyfer a'i fod yn bodloni amodau perthnasol yr awdurdodiad. |

# RHAN II

| *Y Ddarpariaeth yn Rheoliad 1829 /2003* | *Y Pwnc* |
|---|---|
| Erthygl 8.6 | Gofyniad bod cynhyrchion y mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu mesur mewn perthynas â hwy o dan Erthygl 8.6 i'w cael eu tynnu oddi ar y farchnad. |
| Erthygl 9.1 | Gofyniad bod yn rhaid i ddeiliad awdurdodiad a phartïon sy'n ymwneud â rhoi cynnyrch bwyd ar y farchnad gydymffurfio ag amodau neu gyfyngiadau a roddwyd ar awdurdodiad a chyda gofynion monitro ôl-farchnadol. |
| Erthygl 9.3 | Gofyniad bod deiliad awdurdodiad yn hysbysu'r Comisiwn o unrhyw wybodaeth wyddonol neu dechnegol newydd sy'n ymwneud â chynnyrch, a allai ddylanwadu ar werthuso diogelwch wrth ddefnyddio'r bwyd neu ar unrhyw waharddiad neu gyfyngiad ar y bwyd mewn trydedd wlad. |
| Erthygl 13 | Gofyniad am ddangosiadau labelu penodol. |